# Cynnal diogelwch, diogeledd a lles plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynnal diogelwch corfforol, diogeledd a lles cyffredinol plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu neu aildroseddu.

Mae'r un mor berthnasol i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal diogel ac amgylcheddau eraill.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. esbonio eich rôl a'ch cyfrifoldebau wrth gynnal diogelwch, diogeledd a lles plant a phobl ifanc
2. esbonio'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc a sut y gellir cyrchu hwn yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol
3. hyrwyddo pwysigrwydd diogelwch, diogeledd a lles, i blant a phobl ifanc mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion
4. rhoi cyngor i blant a phobl ifanc a chynnig strategaethau addas iddynt ar sut i gadw eu hunain yn ddiogel, yn unol â'u hanghenion a'u hamgylchiadau
5. cysylltu â sefydliadau eraill i gynnal diogelwch, diogeledd a lles plant a phobl ifanc
6. cyfathrebu ar gyflymder sy'n briodol i'r plentyn neu'r person ifanc ac annog cwestiynau i sicrhau ei fod wedi deall
7. cadw cyfrinachedd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau deddfwriaethol a sefydliadol
8. cysylltu â phobl eraill berthnasol a'u diweddaru ynghylch diogelwch a lles plant a phobl ifanc
9. cael ac adolygu'r wybodaeth sydd ar gael am blant a phobl ifanc gan gynnwys eu hamgylchiadau a chanlyniadau asesiadau
10. monitro gweithgareddau a rhyngweithiadau plant a phobl ifanc i nodi unrhyw faterion diogelwch, diogeledd a lles
11. archwilio unrhyw arwyddion o anawsterau o fewn yr amserlenni gofynnol a gwneud hynny mewn modd sensitif sy’n parchu anghenion y plentyn neu'r person ifanc dan sylw
12.

cynnal rhyngweithiadau a strategaethau i gefnogi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed gan eraill, ganddynt eu hunain, neu i eraill

13.
ymyrryd mewn gwrthdaro a sefyllfaoedd camdriniol rhwng plant a phobl ifanc i gynnal diogelwch, diogeled a lles, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad, a'ch lles eich hun

14.
ymateb i anghenion diogelwch, diogeledd a lles plant a phobl ifanc yn unol â'u hamgylchiadau a gofynion ac adnoddau eich sefydliad

15.
darparu arweiniad a chefnogaeth briodol i blant a phobl ifanc sydd wedi gwneud cam â rhywun neu wedi cam-drin eraill

16.
cynnwys plant a phobl ifanc wrth adolygu eu diogelwch, diogeled a lles eu hunain, a diogelwch, diogeledd a lles eraill, a defnyddio hyn i lywio cynlluniau tuag at gynnal hyn

17.
cytuno ar unrhyw newidiadau i'r cynlluniau presennol gyda phawb sy’n cymryd rhan

18.
cadw cofnodion cyfredol a chywir am ddiogelwch, diogeledd a lles unigolion a'r camau cysylltiedig a gymerwyd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
deddfwriaeth berthnasol a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol sy'n berthnasol i'ch sefydliad eich hun ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud
2.
sut i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc a sut i addasu yn briodol
3.
pwysigrwydd cadw at godau proffesiynol neu safonau ymarfer
4.
polisïau a gweithdrefnau gan gynnwys gofynion diogelu ac amddiffyn plant
5.
pwysigrwydd magu a chynnal perthynas wrth gefnogi plant a phobl ifanc
6.
anghenion cymorth ychwanegol plant a phobl ifanc
7.
datblygiad plant gan gynnwys sgiliau corfforol, gwybyddol, emosiynol, cymdeithasol a chyfathrebu
8.
Sut i hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant trwy weithio gyda phlant a phobl ifanc
9.
rôl eich sefydliad a'i wasanaethau, a sut maent yn ymwneud â sefydliadau eraill sy'n berthnasol i gynnal diogelwch, diogeledd a lles plant a phobl ifanc
10.
effaith rhianta a theuluoedd ar blant a phobl ifanc mewn perthynas â'u gallu i ffurfio perthnasoedd eraill
11.
effaith yr amgylchedd cymdeithasol ehangach ar blant a phobl ifanc gan gynnwys meysydd amddifadedd materol, troseddu ac ofn troseddu, tai gwael, a thlodi
12.
strategaethau i annog plant a phobl ifanc i gydnabod a chymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain a'u rhwymedigaethau at eraill
13.
pwysigrwydd eich ymddygiad fel esiampl gadarnhaol i atgyfnerthu ymddygiadau

cymdeithasol-fuddiol

14.
arwyddion y gallai plant a phobl ifanc fod yn cael anawsterau, gan gynnwys gweithgareddau cudd sy'n effeithio ar eu diogelwch a'u lles

15.
mathau o ymyriadau a strategaethau y gellir eu defnyddio i gefnogi

16.
plant a phobl ifanc gan gynnwys y camau y gallant eu cymryd i gadw eu hunain yn ddiogel

17.
ble i ofyn am gyngor ar arferion cyfredol sy'n ymwneud â niwrowahaniaeth

18.
sut i gymhwyso ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac yn seiliedig ar gryfderau yn eich maes gwaith

19.
effaith trawma ar blant a phobl ifanc a sut i sicrhau bod eich ymarfer yn ystyried hyn

20.
sut i nodi ac ymateb i bryderon diogelu

21.
sut i ymyrryd yn effeithiol mewn gwrthdaro a sefyllfaoedd camdriniol rhwng plant a phobl ifanc

22.
yr effaith y gall bod mewn amgylchedd diogel ei chael ar blant a phobl ifanc

23.
egwyddorion ymarfer cydraddoldeb, amrywiaeth a gwrth-wahaniaethol effeithiol

24.
egwyddorion cyfiawnder adferol

25.
eich rôl a'ch cyfrifoldebau a phwy i ofyn am gymorth a chyngor ganddo pan fydd angen

SFJGC13

Cynnal diogelwch, diogeledd a lles plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2025 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2030 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJGC13 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc, Swyddog Cyfiawnder Ieuenctid, Rheolwr Cyfiawnder Ieuenctid, Gweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc, Ymarferydd Cyfiawnder Ieuenctid, Rheolwr Tîm Troseddwyr Ifanc |
| **Cyfres/Set** | Cyfiawnder Ieuenctid, Ailsefydlu Troseddwyr |
| **Geiriau Allweddol** | Ailsefydlu Troseddwyr, Cyfiawnder Ieuenctid |